# Cylchlythyr Cenedlathau'r Dyfodol Mai 2022



## Rhagair



Rwyf wedi amlinellu droeon, fy mod wedi bod eisiau cynyddu'r gefnogaeth a'r arweiniad yr wyf yn eu darparu i gyrff cyhoeddus ers tro byd, a dim ond i raddau cyfyngedig yr wyf wedi gallu ei wneud o'r blaen.

Yn gynharach y mis hwn manteisiodd fy Swyddfa ar y cyfle i gasglu ynghyd cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus a sefydliadau cefnogi mewn un lle i rannu'r hyn a ddysgwyd am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a thynnu sylw at arfer da.

Daeth mwy na 100 o bobl i'r digwyddiad ac roedd yn ysbrydoledig ac yn llawn gwybodaeth – bydd ei ganfyddiadau'n sail i waith fy Swyddfa yn y dyfodol.

**Yn fyr, mae llawer o waith da wedi'i wneud ond mae llawer iawn mwy i'w wneud o hyd os ydym yn dymuno cyflawni ein nod o achub y blaned rhag niwed anwrthdroadwy.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhoi cynnig ar ddull newydd o ddyrannu cyswllt penodol o fewn fy nhîm i bob corff cyhoeddus sydd wedi cynnal nifer o drafodaethau ynghylch yr hyn sydd wedi'i wneud i roi'r Ddeddf ar waith a'r rhwystrau a'r heriau ar hyd y ffordd.

Roedd digwyddiad corff cyhoeddus y mis hwn yn gyfle i roi adborth ar ganlyniadau'r peilot, i rannu model cymorth parhaus arfaethedig ac i wirio mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni effaith gyda'n gilydd.

Nid fi yw'r unig un sy'n cynnig cymorth ar weithredu'r Ddeddf, a bu'r digwyddiad hefyd yn gyfle i glywed gan sefydliadau partner ar eu cynigion o gymorth gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Academi Wales, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chonffederasiwn y GIG.

Er y gallem fod wedi dewis unrhyw nifer o enghreifftiau rhagorol i ddod allan o'r trafodaethau gyda fy Swyddfa, fe wnaethom ganolbwyntio ar dair astudiaeth achos ar y diwrnod – gyda chyflwyniadau gan Amanda Davies (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe), Helen Lucocq (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) a Helen Goddard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy). Buont yn rhannu'r gwaith ysbrydoledig y maent yn ei wneud ar fynd i'r afael â thlodi gwelyau yn Abertawe a thu hwnt, creu lleoedd ym Mannau Brycheiniog a diwylliant yng Nghonwy.







Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys dwy sesiwn grŵp – roedd y cyntaf yn edrych ar y ffordd y mae sefydliadau unigol yn cymhwyso'r ffyrdd o weithio tra bod yr ail sesiwn yn cynnwys sgwrs gyda chyrff cyhoeddus ar sut mae fy nhîm a sefydliadau eraill yn y maes hwn yn darparu cymorth ymarferol.

I grynhoi, dyma restr:

- Cynnal cysylltiadau a enwir
- Darparu hyfforddiant
- Ymateb i geisiadau
- Monitro ac asesu cynnydd
- Dylanwadu ar arweinyddiaeth
- Cynnull pobl
- Casglu a rhannu arfer
- Cynghori BGCau

Cafwyd trafodaethau gwych a chynhyrchiol yn y ddwy sesiwn drafod a fydd yn parhau i fwydo i'n hymdrechion ar y cyd i wreiddio'r Ddeddf ar draws y sector cyhoeddus.




---

"Diolch i bawb, cysylltiadau a dysg wych".*

"Diolch i dîm CGT am ddod â ni at ein gilydd."*

"Diolch am y cyfarfod, mae wedi bod yn fuddiol iawn ac yn addysgiadol."*

---

** Dyfyniadau gan fynychwyr ar ôl y digwyddiad.*

Os hoffech ddarganfod mwy am y digwyddiad Corff Cyhoeddus neu os hoffech gael eich ychwanegu at ein cronfa ddata o wahoddedigion ar gyfer digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol, cysylltwch â ni: [cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru](mailto:cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru)

## Galwad i wneud penderfyniadau dewr: ymateb i asesiadau llesiant ac edrych ymlaen

---

***"Ein her yw gwneud y Ddeddf yn rhan o'n DNA yng Nghymru."***

---



Fel yr amlinellais yn nigwyddiad Corff Cyhoeddus allweddol y mis hwn, mae fy Swyddfa hefyd newydd orffen ymateb i ail rownd asesiadau llesiant byrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGC).

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwella cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae ein Swyddfa yn ymgynghorai statudol ac rydym wedi darparu cyngor unigol i 14 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'n rhaid canmol ymdrechion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae'n galonogol gweld mwy o ymdrech i gydgysylltu pethau a dangos integreiddio; dadansoddiad gwell o dueddiadau'r dyfodol ers y rownd gyntaf; ac ymdrech ar y cyd i gynnwys cymunedau – yn enwedig gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hynny sydd wedi'u cefnogi gan y Rhwydwaith Rhwydwaith Cydgynhyrchu.

Mae hefyd yn galonogol gweld BGCau yn dangos gwell dealltwriaeth o'r argyfwng hinsawdd a natur, yn darparu dadansoddiad gwell o lesiant diwylliannol ac yn archwilio meysydd eraill fel penderfynyddion ehangach iechyd a phwysigrwydd mannau gwyrdd a glas ar ein llesiant mewn manylder.





**Gwelodd y pandemig lefelau digynsail o gydweithio hefyd ac mae llawer o hyrwyddwyr llesiant wedi dweud wrthyf eu bod am i'r cydweithio hwn (a'r ffordd lai biwrocrataidd o weithio) barhau.**

Ond datgelodd yr asesiadau hefyd feysydd lle mae angen i ni symud **yn gynt o lawer** tuag at ein nodau. A dim ond dechrau gwaith llawer anoddach i weithredu yw asesiadau.

Er enghraifft, mae bron pob rhan o Gymru wedi datgan rhyw fath o argyfwng hinsawdd neu natur – sy'n wych – OND dim ond ystum ydyw pan nad oes gan 80% o gyrff cyhoeddus gynlluniau datgarboneiddio yn eu lle.

Rydym hefyd yn gweld effeithiau diffyg ffocws ar atal a meddwl hirdymor. Mae costau byw yn parhau i fod yn her sy'n debygol o waethygu. Ond mae'r argyfwng hwn wedi'i ragweld ers amser maith a gellid bod wedi gwneud mwy i helpu i atal difrifoldeb ei effaith.

Pe baem wedi bod yn fwy pwrpasol a dewr gyda'n buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy ac ôl-ffitio ein cartrefi, mae'n debygol na fyddem yn gweld yr un argyfwng costau byw ag yr ydym yn awr, a byddai gennym lai o bobl yn poeni am wresogi eu cartrefi a rhoi bwyd ar y bwrdd.

Mae angen i hyn ein hatgoffa'n llwyr bod y penderfyniadau y mae cyrff cyhoeddus a'r Llywodraeth yn eu gwneud – neu na fyddant yn eu gwneud – yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau ein cymunedau ac iechyd ein planed.

Mae gwneud y cysylltiadau rhwng materion yn hollbwysig. Er enghraifft, er bod llawer o asesiadau llesiant wedi sôn am effeithiau newid yn yr hinsawdd fel pryder difrifol, roedd diffyg mewnwelediad i arwyddocâd lleol risg hinsawdd ar gymunedau penodol, grwpiau agored i niwed, tirweddau a seilwaith. Dim ond hanner yr asesiadau a wnaeth gysylltiad uniongyrchol rhwng tai, tlodi tanwydd, iechyd a datgarboneiddio.

Er mwyn atal yr argyfwng hwn, mae angen i ni wneud y cysylltiadau rhwng ysgogiadau allweddol i wella llesiant. Er enghraifft:

- Mae angen gwthio am gaffael teg a lleol, gweithredu gwir economi gylchol a chreu gofodau sy'n gweithio i'n cymunedau.
- Yn y cyfnod heriol hwn, mae angen i ni wneud mwy i sicrhau bod lleisiau nas clywir yn aml yn cael llwyfan i fod yn rhan o wneud penderfyniadau.
- Mae angen i ni ymgorffori cynllunio a gweithredu tymor hwy ym mhopeth a wnawn. Mae Covid-19, costau byw, y chwyldro digidol, effaith gofal di-dâl a'r argyfwng hinsawdd i gyd yn debygol o waethygu'r anghydraddoldebau presennol yng Nghymru os na chymerwn gamau i harneisio cyfleoedd a chyfyngu ar niwed.

**Galwad yw hwn i wneud y penderfyniadau dewr, i anelu at sero net, i fynd ymhellach nag sy'n 'ddisgwyliedig' neu'n ofynnol gennym ni. Nid oes gennym amser i'w wastraffu – nid oes gennym 'wedyn', dyma ein moment olaf i sicrhau bod byd i genedlaethau'r dyfodol ffynnu ynddo.**

Yn y meysydd hyn yr ydym wedi nodi symudiadau araf ar gyfer newid, ond dyma hefyd lle mae angen mwy o gymorth ar gyrff cyhoeddus i gyrraedd ein nodau cyfunol. Gwyddom y pwysau sydd ar gyrff cyhoeddus, ond rhaid i ni barhau i symud ymlaen yn gyflym.

Wrth symud ymlaen mae'n rhaid i ni hefyd herio ein normau dysgedig o sut y dylai'r byd redeg - bydd hyn yn anghyfforddus ar adegau, ond yr hyn sy'n fwy anghyfforddus yw'r rhagfynegiadau ar gyfer dyfodol ein planed.





Dyma fy misoedd olaf fel Comisiynydd, ac rwyf am wneud yn siŵr bod y Ddeddf wedi'i gwreiddio yng Nghymru.

Rydyn ni wedi cael bron i 7 mlynedd i ddod i arfer â'r Ddeddf ac rydyn ni wedi gweld newid enfawr yn ein hymddygiad a'r ffordd rydyn ni'n gwneud penderfyniadau.

Ein her yw gwneud y Ddeddf yn rhan o'n DNA yng Nghymru, o ystyried ein bod yn rhoi llesiant yn gyntaf. I wneud hyn, rhaid dod â'n cymunedau gyda ni ar y daith – fel rhan annatod o'r mudiad dros newid.

Rhan bwysig o fy rôl yw adeiladu'r mudiad hwn dros newid, ac mae cyrff cyhoeddus yn bwysig i adeiladu'r momentwm hwn.

**Rwyf wedi siarad llawer am 'hyrwyddwyr rhwystredig' – y rhai mewn sefydliadau sy'n angerddol am y Ddeddf ond sy'n cael eu hatal yn eu traciau gan newid araf a strwythurau hen ffasiwn nad ydynt bellach yn addas i'r diben. Ond os byddwn yn creu mudiad o bencampwyr rhwystredig, gan ddod â mwy o bobl ar daith y Ddeddf, ni fydd gennym ni hyrwyddwyr rhwystredig mwyach, dim ond hyrwyddwyr sy'n gwneud gwaith gwych ar gyfer heddiw ac yfory fydd gennym ni.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein gwaith gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, cysylltwch â: cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

## Mudiad dros Newid

---

*Y mis hwn siaradodd fy nhîm ag Emma Robinson, Rheolwr Datblygu **YHA (Cymdeithas Hostel Ieuenctid)** Cymru am hanes y sefydliad, y gwaith presennol a sut y maent yn harneisio mesurau ataliol hirdymor i wella bywydau pobl ifanc—yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*

---



“Mae’r YHA (Cymru a Lloegr) yn fenter gymdeithasol 90 oed gyda rhyw 150 o hosteli gan gynnwys 21 eiddo ledled Cymru.

Rydym yn elusen sydd â chenhadaeth i gyfoethogi bywydau pawb, ond yn enwedig pobl ifanc, a gwella iechyd corfforol, llesiant meddyliol a sgiliau bywyd trwy bŵer teithio ac antur. Mae YHA yn cysylltu pobl â'i gilydd, â natur a'r awyr agored, â diwylliant a threftadaeth.

Yn gynnar yn 2020 cyhoeddwyd ein strategaeth 10 mlynedd, Antur. Am y tro cyntaf ac am oes. Gan adeiladu ar ddegawd o foderneiddio, bydd ei uchelgeisiau yn ein gweld yn cyrraedd mwy o bobl ac yn cynyddu ein heffaith, gan ganolbwyntio ar y rhai a allai elwa fwyaf mewn oes sydd ein hangen yn fwy nag erioed.

Mae ein strategaeth 10 mlynedd yn ein gweld yn dychwelyd at werthoedd craidd ein gwreiddiau, i'n dechreuadau. Wedi'u geni o drychinebau economaidd a'r galw am ddiwygio cymdeithasol, roedd ein sylfaenwyr yn benderfynol o wella bywydau a chyfleoedd bywyd pobl ifanc. Ac ym Mhrydain, blodeuodd egin werdd gyntaf hostelau yng Nghymru.

Mae gan Gymru ei hanes, ei threftadaeth, ei hiaith, ei thirweddau, ei chymunedau a’i llywodraeth unigryw ei hun. Er mwyn i ni gefnogi pobl a chymunedau Cymru yn well, mae angen i ni gydnabod hyn mewn ffordd nad ydym wedi’i gwneud yn y gorffennol.

Mae arnom angen strategaeth i Gymru sydd wedi’i theilwra i Gymru a’i chryfderau, heriau a blaenoriaethau penodol ei hun.

Daw’r rhan fwyaf o’n gwesteion yng Nghymru o wledydd eraill ac rydym yn falch o chwarae rhan bwysig wrth gyflwyno ysblander Cymru i ymwelwyr, drwy dwristiaeth gynaliadwy. Ond rydyn ni eisiau gwneud mwy dros y bobl sy’n byw ac yn gweithio yng Nghymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a’i nodau wedi llywio ein fframwaith sy’n dod i’r amlwg ar gyfer strategaeth wedi’i hadnewyddu ar gyfer YHA yng Nghymru.

Dros y gwanwyn a’r haf hwn, rydym am siarad â chymaint o bobl, grwpiau a sefydliadau â phosibl i glywed sut y gallwn wneud y defnydd gorau o’n hasedau— ein hosteli, ein pobl a’n hadnoddau i wella cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad i ysblander naturiol Cymru a’r anturiaethau sy’n aros.

Rydym am wneud yn siŵr bod yr hyn a wnawn yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at eco systemau a seilweithiau presennol Cymru. Mae’r nodau llesiant a’r bensaernïaeth oddi tanynt (ffyrdd o weithio a dangosyddion llesiant cenedlaethol) yn ffordd ddefnyddiol o fframio’r hyn rydym yn ei wneud yng Nghymru i helpu i gyflwyno’r gwaith mewn ffordd sy’n hawdd ei chydnabod.

Mae’n helpu i nodi nodau a rennir ymhlith partneriaid presennol a newydd—yn gyrff cyhoeddus a’r rhai sy’n gweithio ar draws y sector sifil yn ehangach—felly rydym yn gweithio’n well gyda’n gilydd ar ganlyniadau a gweithgareddau ar y cyd sy’n helpu i gyflawni yn erbyn y saith nod llesiant.

Mae gan YHA yng Nghymru botensial enfawr i gael effaith ar draws y saith nod llesiant. Rydym yn defnyddio’r pum ffordd o weithio fel themâu defnyddiol i gefnogi ein datblygiad ein hunain yng Nghymru; rydym am integreiddio, cydweithio a chynnwys eraill fel y gallwn gefnogi mesurau ataliol hirdymor i wella bywydau pobl ifanc - yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Os hoffech glywed mwy am YHA a’n rhaglen yng Nghymru — neu os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod sut y gallai YHA yng Nghymru gefnogi eich gweithgareddau eich hun tuag at y nodau llesiant, e-bostiwch Emma yn: emma.robinson@yha.org.uk."

---

*Ni yw YHA.*

*Rydym yn trawsnewid bywydau ifanc am byth trwy deithio ac antur go iawn.*

*Oherwydd mae ble rydych chi'n mynd yn newid pwy rydych chi'n dod.*

---

Am fwy o wybodaeth ac i gymryd rhan yn y sgwrs ewch i: https://www.yha.org.uk/about-yha/yha-in-wales

## Cwrdd â'r Tîm

---

*Bob mis byddwn yn cyhoeddi sesiwn holi-ac-ateb gydag aelod o'm tîm a fydd yn rhannu ei fewnwelediad i'w amser gyda fy Swyddfa. Y mis hwn, ein Prif Swyddog Gweithredu a’n Dirprwy Gomisiynydd **Marie Brousseau-Navarro** a ymunodd â’r tîm yn 2016.*

---



### *Pryd ddechreuoch chi gyda'r swyddfa a beth oedd y darn cyntaf o waith a wnaethoch yn eich rôl newydd?*

Ymunais â'r swyddfa am y tro cyntaf ym mis Medi 2016. Fi oedd yr olaf o 4 cyfarwyddwr i'w penodi. Roeddwn yn gyffrous iawn dwi'n cofio, ac ychydig yn ofnus gan fod yn rhaid i ni ddechrau o'r dechrau adeiladu'r sefydliad yn ogystal â'i redeg. Fy narn mawr cyntaf o waith (yn ogystal â helpu i osod allan ein prosesau mewnol) oedd sefydlu meysydd polisi ffocws ar gyfer tymor y Comisiynydd.

Roeddem yn gwybod mai risg fawr i'r swyddfa oedd lledaenu ein hunain yn rhy fân ac felly peidio â chael yr effaith yr oeddem ei heisiau.

Fe wnaethom ddefnyddio'r pum ffordd o weithio a chynnwys tua 2,000 o bobl dros 18 mis i ddewis y 6 maes a fyddai'n ein helpu i gael yr effaith fwyaf ar lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol yng Nghymru.

Mae ein meysydd ffocws sydd wedi'u hen sefydlu bellach yn debyg i'n hamcanion llesiant ein hunain gan wneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni'r nodau. Yna des i'n Brif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd ym mis Ebrill 2021.

### *Pa newidiadau ydych chi wedi sylwi arnynt dros y blynyddoedd?*

Rwyf wedi gweld dealltwriaeth gynyddol o'r angen am y ddeddfwriaeth ac o'i defnyddioldeb a'i heffaith dros y blynyddoedd. Pan ddechreuon ni newid yn yr hinsawdd ac nid oedd ei risgiau wedi'u sefydlu a'u cydnabod cystal ag y maent ar hyn o bryd. Mae'r argyfwng hinsawdd, bioamrywiaeth a COVID wedi cyflymu a dyfnhau'r ymrwymiad yn y ddeddfwriaeth a'r mentrau rhagorol gan gyrff cyhoeddus a thu hwnt yng Nghymru.

### *Beth fu eich moment balchaf?*

Mae yna lawer, rydw i mor ffodus i ddweud. Penderfyniad yr M4; cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru 10; annerch tîm Cabinet Prif Weinidog Seland Newydd a'r OECD; a'n harchwilwyr ac aelodau ARAC yn dweud bod fy nghyflwyniadau ar risgiau strategol wedi eu gwneud yn gyffrous i siarad am risg, a negeseuon hyfryd gan gydweithwyr yn dweud wrthyf faint rwy'n eu helpu a'u cefnogi. Rwy'n teimlo mor lwcus, a dweud y gwir, bob dydd i ddal y swydd hon ac i allu ceisio newid y byd un darn ar y tro.



### *Beth yw eich darn mwyaf o ddysgu yn eich amser gyda'r swyddfa?*

Grym positifrwydd. Wnes i erioed amau faint mae pobl (gan gynnwys cyrff cyhoeddus) eisiau gwneud y peth iawn a meddwl fel ni. Rwyf hefyd wedi deall yn ddyfnach sut mae popeth yn gysylltiedig. Mae llesiant yn un peth â llawer o ddimensiynau ac agweddau, ond un peth ydyw. Peth cymhleth. Rwy'n teimlo fy mod mewn sefyllfa well nawr i gyfathrebu hyn ac i chwilio am atebion cyfannol, byd-eang.

### *Beth yw eich gobaith pennaf wrth i waith y swyddfa barhau i'r dyfodol?*

Rwy'n gobeithio y bydd pawb yn camu i'r adwy ac yn cyflymu'r newid yn ein holl arferion gan mai dim ond 8 mlynedd sydd gennym ar ôl i drawsnewid pethau ar yr hinsawdd. Mae angen hyn arnom yn unigol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn gyflym. Rwy'n gobeithio y byddwn ni i gyd yn gweithredu mewn pryd.

*Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i aelodau newydd o'r tîm?*

Dim ond i fynd amdani. Credwch ynoch eich hunain, trochwch eich hunain yn ein diwylliant a'n hamgylchedd. Byddwn yn eich cefnogi a'ch hyfforddi fel y gallwch ddod yn asiant bywiog a llewyrchus arall ar gyfer newid. Mae ein cymdeithas eich angen chi ac rydym yn eich croesawu yn ein tîm.

***Un gair sy'n crynhoi eich amser yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru:***

Antur.

## Rydyn ni'n recriwtio!

*Rydym yn chwilio am* ***Bartner Amrywiaeth, Cynhwysiant a Gwrth-hiliaeth****.*

Mae hwn yn gyfle i ddefnyddio'ch holl wybodaeth i sicrhau canlyniadau, dylanwadu ar newid a meithrin perthnasoedd parhaol ag eraill sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu gan gynnwys hiliaeth, galluogrwydd a gwahaniaethu ar y cyd.

Dysgwch fwy am y rôl a sut i wneud cais yma.

Dyddiad cau: **Dydd Llun 10fed Mehefin**



## Cysylltwch â ni

Am ddal i fyny ar rifynnau blaenorol y cylchlythyr? Dewch o hyd iddynt ar ein gwefan yma.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni trwy:

cenedlaethaurdyfodol.cymru / cenedlaethaurdyfodol2020.cymru

cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

@futuregencymru

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

**Future Generations** Commissioner for Wales